# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Lleoliad:

**Fideo Gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 15 Hydref 2020

Amser: 13. 45 - 16.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6522

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Mike Hedges AS (Cadeirydd)<br>Janet Finch-Saunders AS<br>Llyr Gruffydd AS<br>Neil Hamilton AS<br>Jenny Rathbone AS<br>Joyce Watson AS |
| Tystion: | Julie James AS, Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol<br>Jon Fudge, Llywodraeth Cymru<br>Neil Hemington, Llywodraeth Cymru<br>Graeme Purves, Cynghorydd Arbenigol |
| Staff y Pwyllgor: | Marc Wyn Jones (Clerc)<br>Elizabeth Wilkinson (Ail Glerc)<br>Andrea Storer (Dirprwy Glerc)<br>Elfyn Henderson (Ymchwilydd) |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 1 Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft: Cymru'r Dyfodol - Sesiwn friffio gyda chynghorydd arbenigol

1.1 Cafodd y Pwyllgor friff gan Graeme Purves, Cynghorydd Arbenigol i'r Pwyllgor ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2020-2040.

1.2 Gofynnodd yr Aelodau gwestiynau a thrafodwyd materion allweddol a nodwyd yn y briff.

## 2 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

2.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod rhithwir y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig.

2.2 Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, cafwyd datganiad gan y Cadeirydd ei bod wedi penderfynu y dylid gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor i ddiogelu iechyd y cyhoedd.

2.3 Os byddai unrhyw broblemau technegol yn codi yn ystod y cyfarfod, gan olygu y byddai ei gyswllt band eang yn cael ei dorri, nododd y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi cytuno y byddai Jenny Rathbone AS yn cymryd ei lle fel Cadeirydd Dros Dro yn unol â Rheol Sefydlog 17.22.

## 3 Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft: Cymru'r Dyfodol - sesiwn dystiolaeth gyda Llywodraeth Cymru

3.1 Bu’r Aelodau yn holi’r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol a’i swyddogion am y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2020-2040.

## 4 Papurau i'w nodi

4.1 Cafodd y papurau eu nodi.

4.1 Gohebiaeth gan y Cadeirydd at Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig – dilyniant i sesiwn dystiolaeth 17 Medi 2020

4.2 Gohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig mewn perthynas â Bil Pysgodfeydd y DU

4.3 Gohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad – Torri'r rheol 21 diwrnod a Gorchymyn Ceisiadau Cynllunio (Addasiadau a Datgymhwyso Dros Dro) (Rhif 2) (Cymru) (Coronafeirws) 2020

4.4 Papur briffio gan Dŵr Cymru mewn perthynas â Llyn Anafon

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Trafod y dystiolaeth a daeth i law o dan eitem 3

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a glywyd yn ystod eitem 3.

## 7 Trafodaeth ar flaenraglen waith y Pwyllgor

7.1 Trafododd y Pwyllgor ei flaenraglen waith a chytunodd arni.